

IOPC Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu
Independent Office for Police Conduct

# Meithrin ymddiriedaeth a hyder mewn plismona

## Adroddiad Effaith yr IOPC 2022/23






# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Neges gan ein Cyfarwyddwr Cyffredinol Dros Dro | 4 |
| Pwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud | 6 |
| Cipolwg ar ein heffaith | 7 |
| Rydym yn gwrando ac mae pobl yn teimlo eu bod yn cael eu clywed | 8 |
| Rydym yn gwella'r modd yr ymdrinnir â chwynion yr heddlu a phlismona | 12 |
| Rydym yn cynorthwyo defnyddwyr gwasanaeth ac yn gwella mynediad i'r system gwynion | 16 |
| Rydym yn canolbwyntio ar feysydd o bryder cyhoeddus | 20 |
| Rydym yn annibynnol ac yn dwyn yr heddlu i gyfrif | 24 |
| Cysylltu | 28 |




# Neges gan ein Cyfarwyddwr Cyffredinol Dros Dro

**Mae eleni wedi bod yn anodd i blismona gydag achosion a digwyddiadau proffil uchel yn niweidio hyder y cyhoedd.** Mae hyn yn gwneud ein rôl fel corff gwarchod cwynion yr heddlu yn bwysicach nag erioed ac yn y tudalennau canlynol byddwch yn darllen sut mae ein goruchwyliaeth annibynnol yn cael effaith.


Er gwaethaf galw cynyddol am ein cyfranogiad, achosion mwy cymhleth, mwy o amlygrwydd o ddigwyddiadau trwy gyfryngau cymdeithasol, ac adnoddau sy'n crebachu, rwy'n falch o adrodd ein bod wedi cwblhau 89% o'n hymchwiliadau craidd (sy'n eithrio'r rhai yr ymdriniwyd â nhw gan ein cyfarwyddiaeth ymchwiliadau mawr) o fewn 12 mis ac wedi gwneud mwy na 150 o argymhellion. Mae ein hargymhellion yn cynorthwyo plismona i fod yn well drwy nodi cyfleoedd iddynt ddysgu a gwella profiad pawb o blismona.

Ond dim ond rhan o'r stori y mae ystadegau'n ei hadrodd. Mae ein hadroddfiad yn edrych y tu ôl i'r rhifau, gan rannu enghreifftiau penodol o sut rydym wedi gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i bobl go iawn, ar faterion sydd o bryder cyhoeddus. Mae'n dangos sut mae ein cyfranogiad, profiad a galwadau am newid o fudd i'r rheini sy'n defnyddio ein gwasanaethau yn ogystal â phlismona yn gyffredinol.

Mae'r adroddiad hwn yn arddangos enghreifftiau o flwyddyn gyntaf ein strategaeth bum mlynedd newydd, 'Meithrin ymddiriedaeth a hyder mewn plismona'. Mae ein strategaeth yn amlinellu sut y byddwn yn cyflawni ein gorchwyl i wella plismona, dwyn yr heddlu i gyfrif, a sicrhau bod dysgu o'n gwaith yn arwain at newid. Gallwch ddarllen manylion llawn ein strategaeth uchelgeisiol ar ein gwefan newydd.

Mae'r straeon sy'n dilyn yn rhychwantu heddluoedd ledled Lloegr a Chymru, ac yn cwmpasu amrediad o'n gwaith. Maen nhw'n crafu wyneb y gwaith rydym yn ei wneud yn unig - y rhan anoddaf o gynhyrchu'r adroddiad hwn oedd penderfynu beth i'w adael allan. Hoffwn ddiolch i'm holl gydweithwyr yn yr IOPC. Mae eu hymroddiad, eu hangerdd a'u dycnwch yn disgleirio drwy'r adroddiad hwn.

Gobeithio y byddwch yn mwynhau darllen am ychydig o'n heffaith eleni. Wrth i ni barhau i gyflawni ein strategaeth, edrychaf ymlaen at ddangos y gwahaniaeth a wnawn.




**Tom Whiting**
Cyfarwyddwr Cyffredinol Dros Dro

# Pwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud

**Ni yw Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC), corff gwarchod cwynion yr heddlu. Nid ni yw'r heddlu ac rydym yn gwbl annibynnol iddynt.**

Fe wnaethom osod y safonau ar gyfer system gwynion yr heddlu, a welodd fwy nag 80,000 o gwynion yn 2022/23. Rydym yn sicrhau bod yr heddlu'n ymdrin â'r cwynion hyn yn briodol. Rydym hefyd yn ymchwilio i'r digwyddiadau mwyaf difrifol a sensitif yn ymwneud â'r heddlu ein hunain.

Trwy ein gwaith, rydym yn dal yr heddlu i gyfrif pan fydd pethau'n mynd o'u lle, yn argymell newidiadau i atal yr un camgymeriadau rhag digwydd eto ac yn hyrwyddo safonau uchel o blismona. Rydym yn defnyddio ein tystiolaeth i ysgogi gwelliannau yn arferion yr heddlu ac ymdrin â chwynion er budd y cyhoedd a'r heddlu. Bydd hyn yn helpu i gyflawni ein gweledigaeth i bawb allu cael ymddiriedaeth a hyder mewn plismona.

Oherwydd yr amrywiaeth eang o achosion a welwn, gallwn nodi themâu cyffredin a meysydd problemus penodol mewn plismona. Gall materion godi hefyd o sgyrsiau â'n rhanddeiliaid. Pan fyddwn yn nodi maes sy'n peri pryder, rydym yn ymchwilio iddo yn rhagweithiol. Ein meysydd ffocws presennol yw gwahaniaethu ar sail hil a thrais yn erbyn menywod a merched.


Ynghyd ag Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi (HMICFRS) a'r Coleg Plismona, rydym hefyd yn asesu ac yn ymateb i uwch-gwynion. Gall amrywiaeth o sefydliadau wneud uwch-gwynion am faterion eang neu systemig a allai effeithio ar hyder y cyhoedd mewn plismona.

Mae gennym bwerau hefyd dros sefydliadau eraill nad ydynt yn heddluoedd ond sydd â phwerau tebyg i heddlu, ac rydym yn ymchwilio i honiadau troseddol yn erbyn comisiynwyr heddlu a throsedd a'u dirprwyon.

Gallwch ddarllen rhagor am bwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud ar ein gwefan.



# Cipolwg ar ein heffaith





> Fe wnaeth tîm ymchwilio'r IOPC ein trin â chwrteisi a pharch eithriadol

**adborth gan ddefnyddiwr gwasanaeth**

# Rydym yn gwrando ac mae pobl yn teimlo eu bod yn cael eu clywed

O ystyried natur plismona, mae profiadau pobl gyda'r heddlu weithiau'n negyddol, gan niweidio eu hyder mewn plismona. Gall hyn gael ei waethygu pan fyddant yn gwneud cwyn ac yn teimlo nad yw'n cael ei chymryd o ddifrif nac yn cael ei deall yn llawn. Rydym yn helpu i ailadeiladu eu hyder drwy wneud iddynt deimlo eu bod yn cael eu clywed a chael ymatebion ystyrlon ac atebion i'w cwyn.

# Helpu pobl i fod â hyder yn system gwynion yr heddlu

**Fe wnaethom ymchwilio i gŵyn gan ddyn trawsryweddol fod llu wedi methu ag ymchwilio i ddigwyddiadau roedd ef a'i bartner wedi adrodd iddynt fel troseddau casineb, oherwydd ei fod yn drawsryweddol.**

Credai fod hyn, a'r diffyg ystyriaeth a chymorth a gynigiwyd iddo, oherwydd polisïau, arferion neu ddiwylliant gwahaniaethol o fewn yr heddlu.

Er na wnaethom gadarnhau ei gŵyn, gwnaethom argymhelliad dysgu am hyfforddiant gloywi ar gyfer holl swyddogion a staff yr ystafell reoli ar faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth, gan gynnwys troseddau casineb trawsryweddol (traws).

Fe wnaethom argymell hefyd fod derbynwyr galwadau yn gofyn i bobl sut mae'n well ganddynt gael eu hannerch a defnyddio iaith niwtral o ran rhywedd lle mae'n briodol.

Dywedodd y dyn wrthym: "Fe wnaeth tîm ymchwilio'r IOPC ein trin â chwrteisi a pharch eithriadol. Fe wnaethon nhw wrando ar ein cwyn ac ymchwilio iddi'n deg ac uwchlaw popeth arall roeddem yn teimlo'n ddiogel."

O ganlyniad uniongyrchol, gofynnodd y cwpl am gael gweithio gyda ni i godi ymwybyddiaeth o system gwynion yr heddlu a'r IOPC, yn enwedig gyda phobl draws.

Bu aelodau o'n staff yn gweithio gyda nhw, a rhwydwaith cymorth traws, i ddatblygu a chyflawni sesiwn i adeiladu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r IOPC a'r system gwynion o fewn y gymuned draws.

Ychwanegodd y dyn: "Mae ein profiad o gael ein parchu a'n trin â gwerth gan yr IOPC wedi rhoi'r hyder i ni annog eraill i adrodd gan wybod y byddant yn cael ymateb teg, anwahaniaethol a diduedd i'w cwyn."



**Heddluoedd sy'n delio â'r rhan fwyaf o gwynion am yr heddlu. Pan fydd rhywun yn anhapus â'r ffordd yr ymdriniodd heddlu â'u cwyn, mae ganddynt hawl i adolygiad. Daw rhai ceisiadau am adolygiad atom. Rydym yn ystyried os dylid gwneud mwy i fynd i'r afael â'r gŵyn a beth y gellir ei wneud i ddatrys y problemau. Mae hyn yn helpu i ailadeiladu hyder y cyhoedd mewn plismona a system gwynion yr heddlu.**

## Gwneud gwahaniaeth

Cwynodd mam fod ei mab, dyn Du 24 oed sydd â chyflwr iechyd meddwl, wedi cael ei stopio a'i chwilio, a'i noethchwilio yn ddiweddarach, heb sail ddigonol. Roedd hi'n anhapus â'r ffordd yr ymdriniodd yr heddlu â'i chŵyn, felly gofynnodd i ni ei hadolygu. Cadarnhaodd ein rheolwr gwaith achos yr adolygiad ar gyfer deg o'r 11 honiad yn ei chwyn. Roeddent yn argymell y dylai'r heddlu ymddiheuro a bod y swyddogion yn cymryd rhan yn y broses fyfyriol ffurfiol ar gyfer ymdrin ag ymddygiad sy'n syrthio'n brin o'r hyn a ddisgwylir, ond nad yw'n ddigon difrifol i warantu camau disgyblu. Derbyniodd yr heddlu ein holl argymhellion ac ymddiheurodd i'r fenyw a'i mab. Mae'r heddlu hefyd wedi gwella'r ffordd y mae'n ymdrin â chwynion. Diolchodd y ddynes i'r rheolwr gwaith achos am eu "hadolygiad annibynnol trylwyr a theg" a dywedodd: "Mae wedi gwneud gwahaniaeth".

## Adfer cred mewn tegwch a gonestrwydd

Cwynodd menyw fod heddwas wedi darparu gwybodaeth ffug mewn e-bost oedd wedyn yn cael ei defnyddio yn y llys yn ei herbyn ac wedi cyfrannu at golli'r achos. Ymchwiliodd yr heddlu i'w chŵyn ac ni chadarnhaodd y gŵyn. Nid oedd ein rheolwr gwaith achos yn meddwl bod ei chwyn wedi cael ei hymchwilio'n briodol a chyfarwyddodd yr heddlu i'w hailymchwilio. Ysgrifennodd y fenyw at y rheolwr gwaith achos i ddiolch iddynt am eu llythyr canlyniad "cynhwysfawr, tryloyw a hawdd i'w ddeall". Dywedodd hefyd fod eu penderfyniad wedi "adfer fy nghred mewn tegwch a gonestrwydd… Mae fy mhrofiad cyfan o ddelio â'r IOPC wedi bod mor gadarnhaol. Un o ddealltwriaeth a thosturi, o'ch adran Weinyddol i chi…"

> [Eich aelod o staff] yw'r rheswm rwyf wedi ennill fy hyder yn ôl yn y system.
>
> adborth gan ddefnyddiwr gwasanaeth



# Roedd eich cymorth a'ch ymgysylltiad wedi bod yn allweddol i gyflawni ein llwyddiant

**adborth gan randdeiliad**

## Rydym yn gwella'r modd yr ymdrinnir â chwynion yr heddlu a phlismona

Mae ein gwaith yn helpu i nodi cyfleoedd i'r heddlu ddysgu ac i wella profiad pawb o blismona. Mae ein hargymhellion dysgu yn helpu i atal yr un pethau rhag digwydd eto. Rydym yn rhannu dysgu sylweddol â'r holl heddluoedd trwy adroddiadau dysgu a'n cylchgronau Learning the Lessons. Rydym hefyd yn darparu cyngor i wella sut yr ymdrinnir â chwynion yr heddlu ac yn ymyrryd pan fydd angen. Mae hyn i gyd yn helpu i gynyddu hyder y cyhoedd yn yr heddlu.

# Dod â chymunedau a'r heddlu ynghyd i rannu profiadau a gwella plismonaw

**Yn ystod cyfarfodydd cymunedol, clywsom sut roedd marwolaeth dyn ifanc Prydeinig-Somaliaidd wedi cynyddu pryderon ynghylch sut mae'r heddlu'n defnyddio grym a sut y gall rhyngweithio'r heddlu â phobl o dras lleiafrifoedd ethnig, yn enwedig dynion ifanc, waethygu'n gyflym.**

Defnyddiodd Frances, un o'n swyddogion ymgysylltu â rhanddeiliaid, ein sefyllfa unigryw i ddod â'r gymuned a'r heddlu lleol ynghyd. Roedd y sesiwn i fod yn ddechrau sgwrs barhaus rhwng y ddau grŵp i rannu eu profiadau. Ymhlith amrediad o bynciau, siaradodd pobl am y diffyg ymddiriedaeth rhwng pobl ifanc a'r heddlu, sut mae'r heddlu'n ymdrin â rhyngweithio â'r cyhoedd a'r angen am ymwybyddiaeth ddiwylliannol. Cydnabuwyd, er bod enghreifftiau da o ymgysylltiad yr heddlu â chymunedau, nad oedd hyn bob amser yn gyson.

Derbyniodd yr heddlu y bu diffygion a theimlai eu bod wedi gwneud gwelliannau sylweddol yn dilyn y sesiwn. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Mwy o achosion o stopio a chwilio yn cael eu recordio gan swyddogion heddlu ar gamerâu fideo a wisgir ar y corff. Mae bron i 98% nawr wedi'u recordio. Caiff hwn ei adolygu'n rheolaidd i sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio'n briodol.
- Gostyngiad yn y tebygolrwydd y bydd pobl o dras ethnig lleiafrifol yn cael eu stopio a'u chwilio o'u cymharu â phobl Wyn, o chwe gwaith yn fwy tebygol cyn y sesiwn i bedair gwaith yn fwy tebygol ar ôl hynny.
- Siarad â mwy na 4,000 o staff am hil, ethnigrwydd a phlismona i archwilio safbwyntiau a chreu dealltwriaeth a bod yn agored.
- Cynlluniau i siarad â 100,000 o bobl i gael gwybod am eu problemau a'u pryderon.

Mae'r heddlu, ynghyd â'u Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd, wedi cynnal dwy sesiwn arall eu hunain ers hynny. Rydym yn cadw golwg ar gynnydd yr heddlu i adeiladu ar y gwelliannau y maent wedi'u gwneud.



## Nodi a rhannu'r dysgu

Gwnaeth ein hadroddiad dysgu stopio a chwilio a'n hadroddiad Taser argymhellion cenedlaethol i wella defnydd yr heddlu o'r tactegau hyn. Cafodd y rhan fwyaf eu derbyn. Mae'r camau a gymerwyd yn cynnwys:

- cynnwys ein hargymhellion stopio a chwilio yng nghynllun gweithredu'r Maer ar gyfer Llundain a'r Cynllun Gweithredu Hil cenedlaethol ar gyfer plismona
- diweddariadau i hyfforddiant Taser cenedlaethol i bwysleisio pwysigrwydd asesu'r amgylchedd ac ystyried risg anafiadau wrth benderfynu os dylid defnyddio Taser

Eleni, fe wnaethom ofyn i heddluoedd beth maent yn ei wneud yn dilyn ein hargymhellion stopio a chwilio a rhannu eu hymatebion â:

- Chyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu i'w helpu i hyrwyddo arfer da a chynorthwyo heddluoedd
- y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu (PCCs) perthnasol i gynorthwyo eu rôl yn craffu a dwyn prif swyddogion i gyfrif

## Gwella polisi a hyfforddiant yr heddlu

Galwodd dyn yr heddlu gan ddweud ei fod yn hunan-niweidio. Er gwaethaf arwyddion rhybudd ar gyfer y dyn, gan gynnwys ar gyfer arfau, dim ond am ambiwlans y gofynnodd y sawl a oedd yn delio â galwadau'r heddlu. Mynychodd parafeddygon, ond yna bu'n rhaid iddynt ofyn am gymorth brys gan yr heddlu oherwydd ymddygiad bygythiol y dyn.

Argymhellodd ein hadolygiad y dylai polisi a hyfforddiant ar gyfer y rhai sy'n delio â galwadau fod yn gliriach ynghylch ymateb yr heddlu i alwadau iechyd meddwl. Diweddarodd yr heddlu y ddau. Mae galwadau iechyd a lles meddwl yn cael eu trafod yn awr mewn cyfarfodydd rheolaidd a phob gwasanaeth brys i sicrhau dealltwriaeth ar y cyd o gyfrifoldebau.

## Gwella'r gwasanaeth i achwynwyr

Trwy fonitro'n rheolaidd y modd yr ymdriniodd heddlu â chwynion a sgyrsiau â nhw, nododd Kirsty, o'n tîm goruchwylio, gyfleoedd i wella ansawdd ac amseroldeb y ffordd y mae'r heddlu'n cofnodi cwynion. Yn dilyn ei chyngor, ailwerthusodd yr heddlu eu prosesau a'u staffio. Arweiniodd hyn at ostyngiad o 93% yn yr amser a gymerwyd i gofnodi cwyn. Roedd ein gwaith yn annog yr heddlu i gymryd golwg gyfannol o'r modd y maent yn rheoli cwynion. Arweiniodd hyn at welliannau yn eu cyfathrebu ag achwynwyr ac, yn y pendraw, gwellodd ymdrin â chwynion.

> Byddaf yn anfon galwad i weithredu allan at gydweithwyr IOPC i ddefnyddio adborth eu llu [i arolwg yr IOPC] i'w dal i gyfrif yn well ac i ysgogi gwelliannau.
>
> adborth gan randdeiliad




# Rydym yn cynorthwyo defnyddwyr gwasanaeth ac yn gwella mynediad i system gwynion yr heddlu

Trwy ein gwaith, rydym yn dod i gysylltiad â phobl sy'n agored i niwed a phobl sydd ag angen cymorth i gael mynediad i system gwynion yr heddlu. Ein nod yw rhoi'r cymorth sydd ei angen ar bobl i'w galluogi i wneud a dilyn cwynion, sy'n helpu i gynyddu eu hymddiriedaeth yn y system.

# Cynorthwyo pobl sy'n agored i niwed

**Mae ein rheolwyr ymgysylltu â goroeswyr yn darparu cyngor arbenigol i sicrhau ein bod yn darparu'r cymorth ychwanegol sydd ei angen ar bobl sy'n agored i niwed. Maent hefyd yn sicrhau bod hawliau defnyddwyr gwasanaeth, o dan y Cod Dioddefwyr, yn cael eu diogelu.**

Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn achosion lle mae swyddog wedi camddefnyddio ei swydd a bod y dioddefwr yn agored i niwed oherwydd efallai na fyddant yn sylweddoli difrifoldeb yr hyn sydd wedi digwydd. Yn anffodus, rydym yn ymchwilio i lawer o achosion lle mae swyddogion a staff heddlu yn camddefnyddio'u swydd.

Fe wnaethom ymchwilio i honiad bod swyddog wedi camddefnyddio ei swydd i ffurfio perthynas amhriodol â menyw yr oedd yn gwybod ei bod yn agored i niwed. Cyfarfu â'r fenyw wrth gymryd ei ddatganiad yn dilyn ei hadroddiad o ymosodiad rhywiol gan ei phartner. Datgelodd ein hymchwiliad eu bod wedi cyfnewid mwy na 2,000 o negeseuon, nad oedd gan y rhan fwyaf ohonynt unrhyw beth i'w wneud â'r achos. Gwelsom fod gan y swyddog achos i'w ateb am gamymddwyn difrifol. Ymddiswyddodd y swyddog cyn i'n hymchwiliad ddod i ben, ond penderfynodd gwrandawiad disgyblu yn ddiweddarach y byddai wedi cael ei ddiswyddo pe bai'n dal i wasanaethu. Cafodd ei roi ar y rhestr waharddedig hefyd gan atal cyflogaeth â'r heddlu yn y dyfodol.

Cysylltodd un o'n rheolwyr ymgysylltu â goroeswyr ein tîm ymchwilio yn yr achos hwn, gan ymgysylltu â gweithiwr cymorth y fenyw i drefnu cyfarfod cychwynnol. Fe wnaethant hefyd roi cyngor ar bethau i'w hystyried wrth ymgysylltu â'r fenyw, a helpodd hynny i sicrhau ei bod yn teimlo wedi'i grymuso a'i bod yn deall ein rôl. O ganlyniad i'w cyngor, fe wnaethom benderfynu bod gennym dystiolaeth ddigonol heb gyfweld y fenyw, a'i hachubodd hi rhag ali-fyw ei thrawma.

Dywedodd y fenyw wrth ein hymchwilydd:

"Rydw i eisiau diolch i chi a'ch tîm am bopeth maen nhw wedi'i wneud i mi.

Er nad oeddwn yn deall popeth yn iawn ar y pryd, roeddech yn amyneddgar ac yn garedig yn esbonio'r broses a'r hyn oedd i'w ddisgwyl trwy'r achos hwn."



**Yn aml, ein canolfan cyswllt cwsmeriaid yw'r pwynt cyswllt cyntaf i bobl gysylltu â'r IOPC. Mae hyn yn golygu mai nhw yw'r rhai cyntaf yn aml i wybod am broblemau a allai fod gan bobl wrth gael mynediad i'r system gwynion. Maent yn gweithio gydag eraill i helpu i unioni hyn.**

## Hwyluso ymdrin â chwyn

Aimee, o'n tîm cyswllt cwsmeriaid, yw cyswllt yr IOPC ar gyfer dyn a ddywedodd wrthym fod ganddo gyflwr sy'n achosi iddo weiddi'n anfwriadol neu ymddangos ei fod yn ymosodol. Wrth iddo gael trafferth â darllen ac ysgrifennu, mae'n well ganddo gyfathrebu dros y ffôn. Roedd wedi gwneud cwyn i heddlu ond roedd eu cyfathrebu wedi torri i lawr, gyda galwadau'n aml yn cael eu terfynu. Roedd wedi cael anawsterau tebyg â sefydliad cymorth. Er gwaethaf yr anawsterau, adeiladodd Aimee berthynas â'r dyn ac ailadeiladodd ei gyfathrebu â'r heddlu, gan ganiatáu i'w gŵyn gael ei hailagor. Roedd hyn yn cynnwys sicrhau ei fod yn derbyn diweddariadau gan yr heddlu a'i fod yn eu deall. Mae'r dyn wedi diolch i Aimee, gan ddweud mai ni yw'r unig sefydliad i barhau i weithio gydag ef, er gwaethaf yr anawsterau. Mae hyn wedi cynyddu ei ymddiriedaeth yn y system gwynion ac yn yr IOPC.

## Sicrhau addasiadau rhesymol

Dywedodd ein tîm cyswllt cwsmeriaid wrth ein tîm goruchwylio eu bod wedi derbyn sawl galwad am heddlu yn gwrthod derbyn cwynion dros y ffôn. Dywedwyd wrth achwynwyr eu bod naill ai'n gorfod e-bostio neu lenwi ffurflen ar-lein, hyd yn oed pan ddywedon nhw na allent gyflwyno cwyn yn ysgrifenedig. Siaradodd Kirsty, o'n tîm goruchwylio, â'r heddlu a chanfod bod staff newydd yn yr ystafell reoli nad oeddent yn ymwybodol o'r broses gwyno neu nad oeddent yn ei deall. Roedd yr enghreifftiau a rannodd â'r heddlu yn amlygu lle roedd angen hyfforddiant. Mae'r hyfforddiant hwn wedi'i roi ar waith ac mae'r heddlu nawr yn cymryd cwynion dros y ffôn.

> Roeddech yn dosturiol, yn barchus ac yn ddeallus drwy'r amser. Roedd eich lefel o empathi tuag ataf yn rhagorol.

adborth gan ddefnyddiwr gwasanaeth




Roedd pobl ifanc yn cael eu grymuso i glywed am eu hawliau ac i gael dweud eu dweud ar blismona

**Aelod panel ieuenctid**

# Rydym yn canolbwyntio ar feysydd o bryder cyhoeddus

Mae ein hymchwil yn dweud wrthym fod gan bobl ifanc ddiffyg hyder yn yr heddlu a'r system gwynion. Rydym hefyd yn gwybod bod y cyhoedd yn pryderu am wahaniaethu ar sail hil ym maes plismona. Dros y flwyddyn ddiwethaf, gwnaethom barhau i weld yr effaith y mae ein ffocws parhaus yn y meysydd hyn wedi'i chael.

# Gweithio gyda phobl ifanc i wella hyder mewn plismona a'r system gwynion

**Mae ein Panel Ieuenctid, sydd â thua 40 o aelodau rhwng 16-25 oed, yn ein helpu i ddeall yn well y materion plismona sy'n effeithio ar bobl ifanc. Maent yn siarad â phobl ifanc eraill a heddluoedd, gan nodi ffyrdd o wella ymddiriedaeth a hyder yn yr heddlu a'r system gwynion.**

Mae aelod o'r Panel Ieuenctid yn disgrifio ei brofiad:

"Rwyf wedi cael gorchwyl i ddal Lerpwl a Glannau Merswy o fewn ein gwaith ar Banel Ieuenctid yr IOPC. Mae'r heriau economaidd, cymdeithasol a gwleidyddol y mae Lerpwl a'i phobl wedi'u hwynebu wedi gadael llawer o gymunedau lleol yn teimlo eu bod wedi cael eu gadael ar ôl gan y wladwriaeth.

"Roedd trosedd gynnau a gangiau yn thema enfawr o'n gwaith gyda phobl ifanc ar draws Glannau Merswy. I rai, roedd hyn o bryder am eu diogelwch oherwydd gangiau. I eraill, o bryderon am gael eu stereoteipio fel aelodau gang eu hunain. Mynegodd rhai Mwslimiaid ifanc ofn o gael eu 'cyhuddo o fod yn derfysgwr'.

"Roedd ein trafodaethau â Heddlu Glannau Merswy yn rhoi pwyslais ar oedran cyfrifoldeb troseddol. Disgrifiodd llawer o swyddogion ymagwedd yr heddlu at droseddu ieuenctid fel un sy'n cymryd golwg 'gyfannol' o'r unigolyn, wrth asesu'r atgyfeiriadau y dylid eu gwneud. Teimlai swyddogion y byddai codi oed cyfrifoldeb troseddol yn oedi mynediad pobl ifanc ymhellach at y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.

"Wrth fyfyrio, cafodd pobl ifanc eu grymuso i glywed am eu hawliau ac i gael dweud eu dweud ar blismona a chwynion. Cafodd swyddogion eu bywiogi gan y ddeialog agored am ganfyddiadau a hyder y cyhoedd. Canmolodd Heddlu Glannau Merswy ein 'gweithdai craff iawn wedi'u hadeiladu'n dda'. Roedd sefydliadau ieuenctid yn ymddangos yn awyddus i gymryd rhan mewn gwaith ycwanegol gyda'r IOPC. Mae'r ddau grŵp wedi bod yn frwdfrydig i gael y gorau o'n hymgysylltiad.

"Mae'n dangos pa mor annatod y gall gwelededd gwaith yr IOPC gyda chymunedau ledled y wlad fod."



## Cynyddu ymwybyddiaeth pobl ifanc o system gwynion yr heddlu

Amlygodd ymgysylltiad cychwynnol â chymuned leol, yn dilyn saethu dyn Du ifanc i farwolaeth gan yr heddlu, fod angen rhagor o ymgysylltu â phobl ifanc. Cynhaliodd Uzma, ein huwch swyddog ymgysylltu â rhanddeiliaid, weithdy ar gyfer pobl ifanc o dair ysgol, un uned cadetiaid yr heddlu a phanel ieuenctid uned lleihau trais Llundain. Buont yn trafod eu barn am blismona a'u hymwybyddiaeth o'r system gwynion. Nid oedd y mwyafrif yn gwybod sut i gwyno am swyddog. Edrychodd y gweithdy ar yr hyn y gellir cwyno amdano a sut, a phwy yw'r IOPC. Ar ddiwedd y sesiwn, dywedodd bron pob un o'r cyfranogwyr eu bod nawr yn deall sut i gwyno am yr heddlu. Rydym yn parhau i gynnal y gweithdai ac wedi siarad â mwy na 700 o bobl ifanc hyd yn hyn. Rydym hefyd yn rhedeg prosiectau peilot i wella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth pobl ifanc o'r system gwynion ac yn eu grymuso i addysgu eu cymheiriaid a'u cymunedau.

## Gwella'r modd yr ymdrinnir â chwynion gwahaniaethu ar sail hil

Ar sail ein gwaith goruchwylio, rydym yn cyhoeddi canllawiau ar agweddau penodol ar ymdrin â chwynion yn ein cylchgronau 'Focus'. Amlygodd ein rhifyn Rhagfyr 2022 y modd yr ymdriniwyd â chwynion yn ymwneud â gwahaniaethu ar sail hil, gan drafod yr agweddau y mae heddluoedd yn ei chael yn anodd fwyaf. Roedd hefyd yn rhannu arfer da gan heddluoedd i wella'r modd y maent yn ymdrin â'r cwynion hyn a newid eu diwylliant.

Roedd adborth rhanddeiliaid yn gadarnhaol:

"Pwyslais cryf da ar ymgysylltu cynnar a chael cyfeiriad teithio'r gŵyn yn iawn y tro cyntaf. Gwybodaeth hollbwysig."


"Cyngor defnyddiol iawn yn enwedig ynghylch cwestiynau agored yn hytrach na rhai caeëdig a phwysigrwydd ymgysylltu cynnar a rheolaidd."

"Esboniad gwych o gymhwysedd diwylliannol yn yr ystyr ei fod yn fwy na bod yn barchus."

Rydym yn parhau i gynorthwyo heddluoedd a chyrff plismona lleol i oresgyn yr heriau maen nhw'n eu hwynebu er mwyn iddynt fod yn y sefyllfa orau i ymdrin â chwynion yn ymwneud â gwahaniaethu ar sail hil yn gywir o'r cychwyn.

Diolch am eich amser a'ch egni. Mae gwybodaeth y bobl ifanc wedi cynyddu gymaint.

adborth gan randdeiliad



Ni allaf ddiolch digon i chi. Rwy’n falch na fydd e’n gallu camddefnyddio’i swydd yn yr heddlu eto

**adborth gan ddefnyddiwr gwasanaeth**

# Rydym yn annibynnol ac yn dwyn yr heddlu i gyfrif

Mae dal yr heddlu i gyfrif pan fydd pethau’n mynd o’u lle yn rhan bwysig o sut rydym yn cynyddu hyder y cyhoedd yn yr heddlu a system gwynion yr heddlu. Mae hyn yn cynnwys nodi pan fydd rhywun ar fai a chynorthwyo’r achos a allai ddilyn i archwilio eu gweithredoedd. Gallai’r achosion hyn arwain at benderfyniad na ddylai person wasanaethu’r heddlu rhagor.

# Dal yr heddlu i gyfrif drwy ein hymchwiliadau ac adolygiadau

**Yn ein gwaith ymchwiliadau ac adolygiadau, byddwn yn penderfynu os oes gan rywun 'achos i'w ateb' am gamymddwyn neu gamymddwyn difrifol. Rydym hefyd yn penderfynu os dylai achos gael ei gyfeirio at Wasanaeth Erlyn y Goron.**

Rydym yn cynhyrchu adroddiad sy'n dadansoddi'r dystiolaeth y gwnaethom edrych arni i wneud ein penderfyniadau. Yna defnyddir ein hadroddiad mewn unrhyw gamau disgyblu, troseddol neu gwest a all ddilyn.

Os byddwn yn canfod bod gan berson achos i'w ateb am gamymddwyn neu gamymddwyn difrifol, byddwn yn hysbysu'r heddlu a fydd yn cynnal achos disgyblu. Ar gyfer achosion o gamymddwyn difrifol, mae'r achosion hyn fel arfer yn agored i'r cyhoedd eu mynychu. Yn ystod achosion disgyblu, archwilir ein hadroddiad a thystiolaeth ategol. Gofynnir i'r person sydd ag achos i'w ateb am y penderfyniadau a wnaethpwyd a'r camau a gymerodd. Os caiff achos i'w ateb ei brofi, gallai arwain at ddisgyblu neu ddiswyddo'r person hwnnw a'i wahardd rhag gweithio i'r heddlu.

Os byddwn yn cyfeirio achos at Wasanaeth Erlyn y Goron, byddant yn ystyried y dystiolaeth y gwnaethom edrych arni i benderfynu a ddylid pwyso ar gyhuddiadau troseddol a chynnal prawf. Yn ystod prawf, caiff y dystiolaeth ei harchwilio gan y barnwr a/neu'r rheithgor. Mae hyn yn cynnwys edrych ar ein hadroddiad a thystiolaeth ategol, a gofyn cwestiynau i'r person sy'n cael ei gyhuddo. Os ceir person yn euog, bydd y llysoedd yn penderfynu ar ei ddedfryd.

Mewn rhai achosion yn ymwneud â marwolaeth yn nalfa'r heddlu neu yn dilyn cyswllt â'r heddlu, cynhelir cwest i ddarganfod sut y bu'r person farw. Mae hyn yn cynnwys ystyried a allai gweithredoedd yr heddlu fod wedi cyfrannu at y farwolaeth. Mae ein hadroddiadau ymchwilio yn darparu tystiolaeth hanfodol i gefnogi'r broses honno.

Ar y dudalen nesaf mae enghreifftiau o'n hymchwiliadau a arweiniodd at achosion disgyblu a throsedd, a arweiniodd at y sancsiynau mwyaf difrifol. Mae rhagor o wybodaeth am ein rôl yn y systemau disgyblu a throsedd, a chanlyniadau ein hymchwiliadau ar gael yn ein cyhoeddiad blynyddol 'Canlyniadau yn dilyn ymchwiliadau annibynnol yr IOPC'.



## Ymosododd swyddog ar ddyn mewn gefynnau llaw

Fe wnaethom ymchwilio i'r grym a ddefnyddiwyd gan swyddog ar ddyn a oedd wedi'i arestio a'i roi mewn gefynnau llaw gan swyddogion eraill. Mynychodd y swyddog i gynorthwyo ei gydweithwyr. Gwthiodd y dyn mewn gefynnau llaw ddwywaith a'i daro â'i benelin. O ganlyniad, wynebodd y swyddog achos troseddol a derbyniodd ddedfryd o garchar wedi'i ohirio. Cafodd orchymyn hefyd i wneud 100 awr o waith di-dâl.

Canfu ein hymchwiliad fod gan y swyddog achos i'w ateb am gamymddwyn difrifol a chynhaliwyd gwrandawiad disgyblu. Ymddiswyddodd y swyddog cyn y gwrandawiad, ond penderfynwyd y byddai wedi cael ei ddiswyddo pe byddai'n dal i wasanaethu. Cafodd ei wahardd hefyd rhag gweithio i'r heddlu.

## Cyfnewidiodd swyddogion negeseuon WhatsApp sarhaus

Fe wnaethom ymchwilio i honiadau o sylwadau amhriodol a gwahaniaethol a wnaed gan swyddogion heddlu mewn sgwrs grŵp WhatsApp. Edrychwyd hefyd os oedd y swyddogion dan sylw wedi methu â herio neu adrodd ar y sylwadau amhriodol a wnaed gan eraill. O ganlyniad, cafwyd dau gyn-swyddog yn euog o droseddau o dan *Ddeddf Cyfathrebiadau 2003* a'u carcharu.

Canfu ein hymchwiliad fod ganddyn nhw a phedwar arall achos i'w ateb am gamymddwyn difrifol a chynhaliwyd gwrandawiad disgyblu. Cafodd dau a oedd yn dal i wasanaethu yn swyddogion eu diswyddo a byddai'r pedwar arall wedi cael eu diswyddo pe baent yn dal i wasanaethu. Cafodd y chwech eu gwahardd rhag gweithio i'r heddlu.

## Methodd swyddogion ag ymdrin yn briodol â cham-drin domestig

Fe wnaethom ymchwilio i honiadau bod swyddogion wedi methu â diogelu dioddefwr cam-drin domestig a'i phlant pan aethant i ddigwyddiad domestig yn ymwneud â'i chyn-bartner. Fe wnaethom hefyd edrych i weld os oeddent wedi methu ag ymchwilio'n briodol i'r troseddau y dywedodd hi wrthynt yr oedd ei chyn-bartner wedi'u cyflawni, a ategwyd gan dystiolaeth arall. Penderfynodd y swyddogion i beidio ag arestio ei chyn-bartner gan ganiatáu i ddau o'u plant aros gydag ef dros nos.

Canfu ein hymchwiliad fod gan ddau swyddog achos i'w ateb am gamymddwyn difrifol a chynhaliwyd gwrandawiad disgyblu. Derbyniodd pob un o'r swyddogion rybudd ysgrifenedig terfynol, i fod mewn grym am bedair blynedd.

> Rydych wedi adfer fy ffydd yn y system o rwystrau a gwrthbwysau sydd gennym yn ein gwlad i sicrhau atebolrwydd pobl mewn safleoedd o bŵer ac awdurdod.

adborth gan ddefnyddiwr gwasanaeth




**I gael rhagor o wybodaeth am ein gwaith neu i ofyn am yr adroddiad hwn mewn fformat arall, gallwch gysylltu â ni mewn nifer o ffyrdd:**

**www.policeconduct.gov.uk**

Dilynwch ni ar Twitter: **@policeconduct**

E-bostiwch ni yn: **enquiries@policeconduct.gov.uk**

Galwch ni ar: **0300 020 0096**

Negeseuwch: **18001 0207 166 3000**

Ysgrifennwch atom yn:
**Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu**
**PO Box 473**
**Sale M33 0BW**

**© Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (2023)**

OGL Trwyddedir y cyhoeddiad hwn dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni bai lle nodir yn wahanol.

Nid yw hyn yn cynnwys deunydd ar y wefan hon fel deunydd sy'n perthyn i drydydd partïon. Rhaid cael caniatâd i ddefnyddio deunydd o'r fath gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

CUSTOMER SERVICE EXCELLENCE® RHAGORIAETH MEWN GWASANAETH I GWSMERIAID® CSE